Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-541
Ein cyf/Our ref: FM/01106/14

William Powell AM
Cadeirydd Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

24 Medi 2014

Annwyl William

Rwy'n ysgrifennu atoch yn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 1 Medi, a oedd yn gofyn am fy marn ar bwyntiau codwyd gan Gadeirydd Mentrau Iaith Cymru.

Yr wyf eisoes wedi nodi fy marn am bwysigrwydd y mentrau Iaith yng nghyswllt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymateb i'r ddeiseb ac yn fy natganiad polisi 'Bwrw Mlaen'. Nid oes amheuaeth bod y mentrau yn rhan atodol o'r gwaith o gyflawni hyn.

Roeddwn yn falch i allu cyhoeddi'r buddsoddiad o £1.2 miliwn tuag at hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned dros y 2 flynedd nesaf gan gynnwys £750,000 i ddatblygu gwaith y Mentrau Iaith. Mewn sefyllfa lle mae arian yn parhau i fod yn dynn credaf fod y buddsoddiad hwn yn un sylweddol er mwyn cynyddu effaith a dylanwad y mentrau iaith.

Fel mae'r ymateb i'r adroddiad ar waith y mentrau yn nodi, wrth gadw mewn cof y cyd-destun o'r cynigion i uno awdurdodau lleol, ein nod yw symud i sefyllfa dros y tair blynedd nesaf lle byddwn yn ariannu nifer llai o endidau ar draws Cymru. Credwn y byddai symud tuag at glystyru'r mentrau yn cynnig cyfle i godi statws a dylanwad yr arweinyddion sy'n bodoli ymhlith y mentrau tra ar yr un pryd yn cadw a chryfhau'r elfen leol sy'n hollbwysig i fodolaeth y mentrau.

Yn gywir



**CARWYN JONES**

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA